

Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2020-21 – Cyngor Sir Ddinbych

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3070A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Crynodeb

Penawdau

Crynodeb o ganlyniadau'r gwaith ardystio

4

5

7

Adroddiad cryno

Crynodeb

- 1 O dan baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, os yw'n ofynnol gan lywodraeth leol neu gorff arall sy'n derbyn grantiau, yn gwneud trefniadau ar gyfer ardystio hawliadau a ffurflenni (y cyfeirir atynt fel hawliadau grant, o hyn ymlaen).
- 2 Gwnaethom ein gwaith gyda'r nod o ardystio hawliadau unigol ac ateb y cwestiwn:
'A oes gan Gyngor Sir Ddinbych (yr Awdurdod) drefniadau digonol ar waith i sicrhau bod hawliadau grant cydgysylltiedig, cywir, amserol ac wedi'u dogfennu'n briodol yn cael eu cynhyrchu?'
- 3 Rydym wedi cwblhau'r archwiliad ac yn dod i'r casgliad, er bod gan yr Awdurdod drefniadau digonol ar y cyfan ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno ei 20 hawliad grant 2020-21, mae lle i wella. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod i wneud y gwelliannau hyn ar gyfer 2021-22. Mae ein casgliad ar gyfer 2020-21 yn seiliedig ar y canfyddiadau cyffredinol canlynol:
 - gweithiodd yr Awdurdod yn agos gyda ni i sicrhau bod amserlen gywir a chyfredol o 20 o grantiau 2020-21 ar waith drwy gydol y flwyddyn;
 - mae lle i wella trefniadau'r Awdurdod ar gyfer cyflwyno ei hawliadau grant i'w harchwilio.
- 4 Ar gyfer 2020-21 fe wnaethom ardystio saith hawliad grant gwerth £187,482,878.
- 5 Cyflwynodd yr Awdurdod 43% (tri allan o saith) o'i hawliadau grant 2020-21 i ni ar amser. Gallwn gadarnhau ein bod wedi ardystio'r holl hawliadau, ar gost archwilio o £53,037 (ardystiwyd 4 hawliad yn 2019-20 am gyfanswm cost archwilio o £32,121).
- 6 Roedd rhaid cymhwyso un o'r saith hawliad (1:7); mae hon yn gyfradd gymhwyso is na chyfartaledd hirdymor Cymru, sef 1:4.

Penawdau

Arddangosyn 1:

Cyflwyniad a chefnidir	Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau'r gwaith ar ardystio hawliadau a ffurflenni grant 2020-21 yr Awdurdod <ul style="list-style-type: none">• Fel archwilydd penodedig yr Awdurdod, gofynnir i ni ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ardystio hawliadau grant a wnaed gan yr Awdurdod.• Ar gyfer 2020-21, gwnaethom ardystio saith grant gyda chyfanswm gwerth o £187,482,878.• Rydym wedi darparu Rhestr Wirio Grant Arfer Da gynhwysfawr i swyddogion i'w chynnwys ar bob ffeil hawlio grant. Roedd y Rhestr Wirio Grantiau yn tynnu sylw at y meysydd allweddol y byddai Archwilio Cymru yn eu hadolygu wrth gyflawni ardystiad archwilydd grant.• Rydym wedi cynhyrchu'r adroddiad hwn fel y gallwn ddarparu adborth ar y cyd i'r swyddogion hynny sy'n gyfrifol am reoli grantiau fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i nodi gwelliannau pellach y gellir eu gwneud i wella'r prosesau.
Derbyn hawliadau'n brydlon	Mae ein dadansoddiad yn dangos bod 43% o'r grantiau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn wedi dod i law erbyn y dyddiad cau a bennwyd ar gyfer yr Awdurdod o ran telerau ac amodau. <ul style="list-style-type: none">• Derbyniwyd y cais am Gymhorthdal Budd-dal Tai bum niwrnod yn hwyr, ychydig iawn o oedi nad oedd yn effeithio ar y broses ardystio.• Derbyniwyd y tri hawliad cyllideb gyfun i gyd yn hwyr. Hon oedd y flwyddyn gyntaf i bob un o'r tri hawliad gael eu hardystio. Roedd hyn yn gofyn am waith ychwanegol i'r Awdurdod ei wneud er mwyn coladu a pharatoi'r dogfennau gofynnol i gefnogi'r broses ardystio. Nid oedd yr oedi'n effeithio ar yr ardystiad.

<p>Canlyniadau ardystio</p>	<p>Gwnaethom gyhoeddi tystysgrifau diamod ar gyfer chwe grant a ffurflen ond roedd angen cymhwyso un hawliad (14%) ar gyfer Cymhorthdal Budd-dal Tai.</p> <p>Mae'r rhesymau dros gymhwyso'r cymhorthdal Budd-dal Tai wedi'u nodi isod, gellir grwpio'r materion yn faterion parhaus a'r rhai sydd y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod.</p> <p>Materion cymhwyso a adroddwyd mewn blynyddoedd ariannol blaenorol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwall math 3 – Camddosbarthu gwariant Budd-dal Tai. • Gwall math 4 – Gwybodaeth ategol annigonol.
<p>Addasyddion archwiliots</p>	<p>Yr oedd angen addasiadau i ddau o grantiau a ffurflenni'r Awdurdod o ganlyniad i'n gwaith ardystio archwilydd eleni</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd y Cymhorthdal Budd-dal Tai yn destun diwygiadau gwerth £26,120, effaith net y diwygiad oedd lleihau'r balans oedd ddyledus i'r Awdurdod o £15,418. • Gwnaed dau ddiwygiad i'r Ffurflen Ardrethi Annomestig Cenedlaethol. Nid oedd y diwygiadau hyn yn effeithio ar y swm a oedd yn daladwy i Lywodraeth Cymru. • Gwnaed un diwygiad i'r Ffurflen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Nid oedd y diwygiad hwn yn effeithio ar swm y cyllid a dderbyniwyd yr Awdurdod.
<p>Mae trefniadau'r Awdurdod</p>	<p>Mae gan yr Awdurdod drefniadau digonol ar gyfer paratoi ei grantiau a'i ffurflenni a chefnogi ein gwaith ardystio.</p>
<p>Ffioedd</p>	<p>Ein ffi gyffredinol am ardystio grantiau a ffurflenni ar gyfer 2020-21 yw £53,037.</p> <p>Mae hyn yn uwch na'n hamcangyfrif gwreiddiol o £35,000 i £40,000 a gynhwyswyd yn ein Cynllun Archwilio Blynyddol, nid oedd yr amcangyfrif yn cynnwys ardystio'r tri hawliad cyllideb gyfun.</p>

Crynodeb o ganlyniadau gwaith ardystio

- 7 Ar y dudalen ganlynol mae crynodeb fanwl o ganlyniadau allweddol ein gwaith ardystio ar grantiau a ffurflenni 2020-21 yr Awdurdod, mae'r grynodeb yn dangos lle y gwnaed diwygiadau archwilio o ganlyniad i'n gwaith neu lle bu'n rhaid i ni gymhwyso ein tystysgrif archwilio.
- 8 Mae cymhwyso yn golygu bod materion wedi'u nodi ynghylch cydymffurfiaeth yr Awdurdod â gofynion cynllun na ellid eu datrys drwy addasu. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n debygol y bydd y corff perthnasol sy'n talu grantiau angen rhagor o wybodaeth gan yr Awdurdod i fodloni ei hun bod y symiau llawn o grant a hawlir yn briodol.

Arddangosyn 2: gwybodaeth allweddol ar gyfer 2020-21

Gwybodaeth allweddol ar gyfer 2020-21

Yn gyffredinol, fe wnaethom ardystio saith grant a ffurflenni:

- **Roedd BEN01 yn gymwys gyda diwygiadau**
- **Roedd LA01 a SOC07 yn ddiamod gyda diwygiadau**
- **Roedd PEN05 a'r tri grant HLG01 yn ddiamod heb eu diwygio**

Arddangosyn 3:

Cyf – Para 8	Grantiau a ffurflenni	Hawliad sy'n ddyledus	Derbyniwyd yr hawliad	Hwyr	Tystysgrif gymwysedig	Addasiad (>£10,000)	Addasiad (<£10,000)
BEN01	Cymhorthdal Budd-dal Tai	30/04/21	05/05/21	Ie	Ie	£25,657	£463
LA01	Ardrethi Annomestig	29/05/21	29/05/21	Na	Na	£dim	*£dim
PEN05	Pensiynau Athrawon	31/05/21	29/04/21	Na	Na	£dim	£dim
SOC07	Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol	30/09/21	28/08/21	Na	Na	£dim	*£dim
HLG01	Cyllidebau cyfun – Llety Cartrefi Gofal Gogledd Cymru	07/05/21	22/04/22	Ie	Na	£dim	£dim
HLG01	Cyllidebau cyfun – Gwasanaethau Cyfarpar Cymunedol	07/05/21	22/04/22	Ie	Na	£dim	£dim
HLG01	Cyllidebau cyfun – Gwasanaeth Gweithwyr Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol	07/05/21	22/04/22	Ie	Na	£dim	£dim
	Cyfanswm				1	£25,657	£463

* Diwygiadau a wnaed ond dim effaith ariannol ar yr hawliad oherwydd natur y camgymeriad.

9 Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r materion allweddol y tu ôl i bob un o'r addasiadau neu'r cymwysterau a nodwyd ar dudalennau 5 i 6.

Arddangosyn 4:

Cyf	Arsylwadau cryno	Gwelliant
BEN01	<p>Budd-dal Tai a Chymhorthdal Treth Awdurdod</p> <ul style="list-style-type: none"> Nododd profion ar gell pennawd Cell 094 un achos lle'r oedd gordaliad budd-dal wedi'i ddsbarthu'n anghywir fel Cell 096. Y dosbarthiad cywir o'r gwariant hwn oedd Cell 097. Roedd poblogaeth Cell 096 yn cynnwys 79 o achosion, cwblhawyd profion ychwanegol ar bob un. Nododd y profion 18 gwall arall lle'r oedd gwariant wedi'i gamddosbarthu. <i>Gwall math 4: camddosbarthiad gwariant [£25,657]</i> Nododd profion ar gell pennawd Cell 011 un hawliad lle'r oedd gordaliad budd-dal wedi'i ddsbarthu'n anghywir fel Gordaliadau Cymwys Cell 028. Y dosbarthiad cywir o'r gordaliad oedd gwall Cell 026 Gwall ALI ac oedi gweinyddol oherwydd bod y gordaliad wedi ei achosi gan wall cyfrifo'r system. <i>Gwall math 4: camddosbarthiad gwariant [£210]</i> Nododd profion ar gell pennawd Cell 011 un hawliad lle'r oedd gwariant ar fudd-dal tai wedi'i ddsbarthu'n anghywir fel Cell 013 yn hytrach na Chell 012. Roedd pob un o'r 31 achos arall yn destun profion ychwanegol. Nodwyd 6 gwall pellach. <i>Gwall math 4: camddosbarthiad gwariant [£253]</i> Effaith y diwygiadau hyn oedd lleihau cyfanswm y cymhorthdal a hawliwyd ac sy'n ddyledus i'r Awdurdod gan £15,418. Mae'r materion hyn wedi'u hadrodd i'r Adran Gwaith a Phensiynau. 	£26,120
	Cyfanswm effaith y diwygiadau i hawliadau a ffurflenni'r Awdurdod	£26,120

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

